CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Cabinet | Dyddiad: | 18 Tachwedd 2013 |
| | | Rhif Union: | 01824706141 |
| | | ebost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 26 TACHWEDD 2013** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – ESTYNNIR GWAHODDIAD I'R WASG A'R CYHOEDD I DDOD I'R RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN BUDDIANT**

Dylai Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiadau personol neu rai sy'n rhagfarnu gydag unrhyw fater a nodwyd y dylid ei ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Rhybudd o faterion y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

**4 COFNODION** (Tudalennau 5 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd 29 Hydref 2013 (copi'n amgaeedig).

**5 BWRIAD I SEFYDLU CYDBWYLLGOR YMGYNGHOROL DROS DRO ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL (AHNE) BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY** (Tudalennau 11 - 62)

Rhoi ystyriaeth i adroddiad gan y Cynghorydd Huw Jones, yr Aelod Arweiniol dros Dwristiaeth, Hamdden a Ieuenctid (copi'n amgaeedig) yn ceisio cefnogaeth y Cabinet i sefydlu Cyd-bwyllgor AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

**6 CYNLLUN COMISIYNU LLEOL SIR DDINBYCH CEFNOGI POBL 2014-15 A 2015-16** (Tudalennau 63 - 90)

Rhoi ystyriaeth i adroddiad gan y Cynghorydd Bobby Feeley, yr Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant (copi'n amgaeedig) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i Gynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl 2014-15 a 2015-16 er mwyn ei gyflwyno i Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru ac i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**7 CYNLLUNIAU TREF AC ARDAL** (Tudalennau 91 - 168)

Rhoi ystyriaeth i adroddiad gan y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd (copi'n amgaeedig) yn rhoi diweddariad i'r Cabinet ynglŷn â Chynlluniau Tref ac Ardal ac yn ceisio mabwysiadu Cynlluniau Ardal Llangollen, Corwen a Llanelwy a chymeradwyo cyllid ar gyfer y blaenoriaethau sydd wedi'u cynnwys o fewn y cynlluniau hynny.

**8 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 169 - 182)

Rhoi ystyriaeth i adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau (copi'n amgaeedig) yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.

**9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET** (Tudalennau 183 - 188)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd wedi'i hamgáu a nodi ei chynnwys.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod trafod y materion canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

**10 DILEU TRETHI BUSNES** (Tudalennau 189 - 198)

Rhoi ystyriaeth i adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau, (copi'n amgaeedig) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddileu'r Trethi Busnes nad oes modd eu hadennill fel y manylir yn yr adroddiad.

**11 SINEMA A CHANOLFAN GELFYDDYDAU SCALA - DIWEDDARIAD ARIANNOL** (Tudalennau 199 - 204)

Rhoi ystyriaeth i adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, (copi'n amgaeedig) yn manylu ar sefyllfa ariannol gyfredol y cwmni.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Evans
Julian Thompson-Hill
Eryl Williams
Bobby Feeley
Hugh Irving
Huw Jones
Barbara Smith
David Smith

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned